OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3294 (Cy.291) (C.146)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Rhagfyr 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Ionawr 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 134(6) o Ddeddf Trafnidiaeth Leol 2008(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2010 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trafnidiaeth Leol 2008.

### Cychwyn ar ddarpariaethau trafnidiaeth leol o ran Cymru

**2.** 31 Ionawr 2010 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym–

(a) Adran 13 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym).

(b) Adrannau 14—18.

(c) Adran 68(2).

(ch) Adran 131 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r canlynol —

Rhan 1 o Atodlen 7,

Yn Rhan 2 o Atodlen 7, y diddymiadau sy'n ymwneud ag adran 116(2) ac Atodlen 10 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**2**),

Yn Rhan 2 o Atodlen 7, y diddymiad sy'n ymwneud â Deddf Fenter 2002(**3**),

Yn Rhan 3 o Atodlen 7, y diddymiadau sy'n ymwneud ag Adrannau 74, 75 a 79 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985(**4**),

(**1**) 2008 p.26.
(**2**) 2000 p.38.
(**3**) 2002 p.40.
(**4**) 1985 p.67.

Yn Rhan 3 o Atodlen 7, y diddymiadau sy'n ymwneud â Deddf Trafnidiaeth 2000,

Yn Rhan 5 o Atodlen 7, y diddymiadau sy'n ymwneud â Deddf Trafnidiaeth 2000,

ac felly â'r diddymiadau hynny.

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

14 Rhagfyr 2009

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 31 Ionawr 2010 ddarpariaethau canlynol Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 ("y Ddeddf")(**5**).

**Rhan 3**

Adrannau 13 i 18 (ac eithrio adran 13(1) a 13(2) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2009) sy'n diwygio pwerau yn Neddf Trafnidiaeth 2000(**6**) i awdurdodau trafnidiaeth lleol wneud cynlluniau partneriaeth ansawdd.

**Rhan 4**

Adran 68(2) sy'n estyn pwerau Gweinidogion Cymru i roi nawdd ar gyfer darparu gwasanaethau penodol i gludo teithwyr.

**Rhan 8**

Adran 131 i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymiadau yn Atodlen 7 ac felly â'r diddymiadau hynny.

---

(**5**) 2008 p.26.
(**6**) 2000 p.38.